

CYMDEITHASAU A CHANOLFANNAU CYMREIG

CAIRO.—Clwb y Cymry, Victory Club, Cairo. Cyfarfod yn Wesley House, nos Iau; St. John's Church, nos Sul.

ALEXANDRIA.—Cymdeithas yr Aelwyd, Scottish School for Girls, Alexandria. Cyfarfod yn St. Andrew's Church Hall.

DURBAN.—Cymdeithas Cymry Natal, Colonization Chambers, Durban, Natal. Llywydd: Mr. J. Merlin Morgan. Ysgrifennydd: Mrs. Myfanwy Tait.

GIBRALTAR.—Cymdeithas Brythoniaid y Graig, c/o The Welcome, Main Street, Gibraltar.

BOMBAY.—Wesleyan Hall, Coloba Causeway, bob nos Fawrth gyntaf, a'r drydedd nos Fawrth yn y mis am 7-30. Ysgrifennydd: Mr. W. Roberts, c/o Commercial Assurance, 9 Wallace Street, Bombay.

LLUNDAIN.—Clwb y Cymry (Welsh Services Club), 157/160 Grays Inn Road, London, W.C.1. Gwelyau, Bwyd, Llyfrgell, Ystafelloedd Chwarae a Gorffwys. Phon—Ter 3722.

LERPWL.—Clwb y Cymry, 150 Upper Parliament Street, Liverpool. Bwyd, Ystafelloedd Chwarae a Gorffwys. Llyfrgell.

AMWYTHIG.—Y Capel Cymraeg, Dogpole, Shrewsbury. Ystafell orffwys a Llyfrgell yn agored bob nos.

MANCEINION.—Cymdeithas y Ddraig Goch, 97 a 97a Oxford Road, All Saints, Manchester.

WARRINGTON.—Y Capel Cymraeg, Crosfield Street. Ysgrifennydd: Mr. E. Williams, 6 Beech Grove, Warrington.

GLASGOW.—Mr. J. Alban Griffiths, Gwalia, 555 Crow Road, Jordanhill, Glasgow.

LOUGHBOROUGH.—Mr. J. Ingh Williams, 32 Mayfield Drive (neu Loughborough College), Loughborough.

ANNERCH

DIM ond gair bach i gyflwyno'r rhifyn hwn o'r Llyfrau Anrheg i'r Cymry ar wasgar. Argyhoeddwyd ni y cawsai detholiad bychan o Emynau groeso cynnes gennych. Anfonir ef atoch gyda "Chofion Cymru" a dymuniadau da Undeb Cymru Fydd. Dewiswyd yr Emynau nid yn unig er mwyn i chwi eu canu gyda'ch gilydd ond hefyd er mwyn i chwi allu eu cadw yn eich poced a'u darllen, efallai ar lawer awr unig yn eira'r mynyddoedd, cysgodion y coedwigoedd llaith neu yn nhyllau poeth tywod sych a noeth yr anial. Dowch â hwy yn ôl gyda chwi i Gymru i adfywhau ysbryd y cartrefi a'r pentrefi sydd yn disgwyl yn eiddgar amdanoch.

Gofynnwn am faddeuant yr awduron a chyhoeddwyd yr Emynau am ddefnyddio'u cynyrchion heb ganiatad ffurfiol. Gwyddom y bydd pob un ohonynt yn falch o'r cyfle ychwanegol hwn i'w geiriau ysbrydoledig ddiddanu, cysuro a chynghori plant Cymru sydd wedi eu gwasgaru trwy'r byd.

J. MORGAN JONES,

Cadeirydd y Pwyllgor.

Gellir cael copiau ychwanegol o'r Detholiad, at wasanaeth canolfannau, etc., oddi wrth y Cyhoeddwr, Mr. D. R. HUGHES, Y Bwthyn, Min-y-don, Old Colwyn, Denbighshire.

YR EMYNAU

1

O Arglwydd, dyro awel,
A honno'n awel gref,
I godi f'ysbryd egwan
O'r ddaear hyd y nef :
Yr awel sy'n gwasgaru
Y tew gymylau mawr ;
Mae f'enaïd am ei themlo :
O'r nefoedd doed i lawr.

Awelon mynydd Seion
Sy'n ennyn nefol dân,
Awelon mynydd Seion
A nertha 'nghanre 'mlaen ;
Dan awel mynydd Seion
Mi genais beth cyn hyn ;
Mi ganaf ronyn eto
Nes cyrraedd Seion fryn.

DAVID WILLIAMS, Llandeilo Fach.

2

O tyrd ar frys Iachawdwr mawr,
Disgynned D'Ysbryd yma'n awr ;
Rho nerth i bawb o deulu'r Tad
Gydgardded tua'r hyfryd wlad.

Cyd-fynd o hyd, dan ganu, 'mlaen,
Cyd-ddioddef yn y dŵr a'r tân,
Cyd-gario'r groes, cyd-lawenhau,
A chyd-gystuddio dan bob gwae.

Un llais, un sŵn, un enw pur,
O'r gogledd fo i'r dwyrain dir,
O fôr i fôr, o gylch y byd—
Sef enw Iesu, oll i gyd.

Amen, Amen !—boed môr a thir
Mewn perffaith hedd, mewn cariad pur,
Heb feddu pleser o un rhyw
Ond caru'r Iesu mawr a'u Duw.

PANTYCELYN.

3

Cofia'n gwlad, Benllywydd tirion,
Dy gyfiawnder fyddo'i grym :
Cadw hi rhag llid gelynyon—
Rhag ei beiau'n fwy na dim :
Rhag pob brad, nefol Dad,
Taena d'adain dros ein gwlad.

Yma mae beddrodau'n tadau,
Yma mae ein plant yn byw ;
Boed pob aelwyd dan dy wenu,
A phob teulu'n deulu Duw :
Rhag pob brad, nefol Dad,
Cadw di gartrefi'n gwlad.

Gwna'n Sabothau'n ddyddiau'r nefoedd,
Yng ngoleuni d'eiriau glân ;
Dyro'r gwllith i'n cymanfaoedd—
Gwna ein crefydd fel ein cân :
Nefol Dad, boed mawrhad
Ar d'efengyl yn ein gwlad.

ELFED.

4

O Dduw yr holl genhedloedd,
A Chyfaill gwledydd byd,
Rho fendith brynïau'r nefoedd
I Gymru fechan glyd ;
I'w phlant ymhell ac agos
Doed golau gwell yn awr ;
Ar ôl tymhestlog hirnos
Doed tawel hafaidd wawr.

Ar fryniau Galilea
Bu sôn am Deyrnas nef ;
Ar fryniau annwyl Gwalia
Cod heddiw, Grist, dy lef ;
Mae llonder yn dy ciriau,
A chariad yn dy lais,
Mae heddwch ar dy lwybrau,
Heb lid na brad na thrais.

Dysg inni fyw i'th barchu,
A gwna'n calonnau'n un,
Dros Iesu a thros Gymru,
I weithio yn gytûn ;
A cherdded ysbyrd hawddgar
Hyd wledydd pella'r byd,
Nes dwyn holl bobloedd daear
Yn frodyr o un fryd.

ELFED.

5

Tydi, O Dduw, a beraist
Dy foliant ym mhob iaith,
Ac ym mhob gwlad a godaist
Broffwydi at dy waith ;
Clyw foliant Gwlad y Bryniau
Ar dafod ac ar dant
Am anfon atom ninnau
Golcmen Dewi Sant.

Trwy'n gwlad tramwyodd D'Ysbryd
O'i mynydd hyd ei môr,
Disgleiria'i "blodau hyfryd"
Yn llwybrau Saint yr Iôr.
O Luniwr Glân yr eirlys
A chennin aur y pant
Gwna di'n bywydau'n ddilys
Fel Buchedd Dewi Sant.

4

Y pethau bychain hynny
A welsom ganddo ef
O dyro ras i'w dysgu
Yn awr er Teyrnas Nef.
Rhag awel bêr Glyn Rhosyn
Gwasgarer llid a chwant,
Ac uner Cymru'n rhwymyn
Brawdoliaeth Dewi Sant.

Rhoist lamp y Gair i arwain
Ein gwlad trwy'r hirmos ddu,
Ar weddi'r saint bu d'adain
Tros fywyd Cymru Fu.
O Arglwydd Dduw ein tadau
Bydd eto'n Dduw eu plant,
A chadw'n Cymru ninnau
Yn Gymru Dewi Sant.

CYNAN.

6

O Iesu mawr, pwy ond tydi
A allai farw drosom ni,
A'n dwyn o warth i fythol fri ?
Pwy all anghofio hyn ?

Rhyfeddod heb heneiddio mwy
Fydd hanes mawr dy farwol glwy,
Ni threiddia tragwyddoldeb trwy
Ddyfnderoedd cariad Duw.

EMRYS.

7

'Rwy'n llefain o'r anialwch
Am byrth y ddinas wiw ;
Caersalem fry, fy nghartref,
Caersalem lân fy Nuw !
Pa bryd y caiff fy llygaid,
Pa bryd y caiff fy mhen,
Ymagor ac ymorffwys
Ym mro Caersalem wen ?

5

Rho imi fara'r bywyd,
 Rho imi'r dyfroedd byw,
 I'm cynnal nes im ddyfod
 I ddinas wen fy Nuw ;
 'Rwy'n sefyll ac yn curo,
 O agor dithau'r ddôr,
 Gad imi byth breswyllo
 Caersalem lân fy Iôr.

Er gwanned yw fy ngolwg
 Er trymed yw fy nghlyw,
 Mi welaf mewn addewid
 Gaersalem lân fy Nuw ;
 Mi welaf gaerau Seion,
 Mi glywaf Iwbili,
 Mi welaf ddinas sanctaidd—
 Caersalem ydyw hi !

CEIRIOG.

8

Wele'n sefyll rhwng y myrtwydd
 Wrthrych teilwng o'm holl fryd ;
 Er mai o ran yr wy'n adnabod
 Ei fod uwchlaw gwrthrychau'r byd ;
 Henffych fore
 Y caf ei weled fel y mae.

Rhosyn Saron yw ei enw,
 Gwyn a gwridog, teg o bryd ;
 Ar ddeng mil y mae'n rhagori
 O wrthrychau penna'r byd ;
 Ffrind pecha lur,
 Dyma'r peilat ar y môr.

ANN GRIFFITHS.

9

O Iesu, pwy all beidio
 A'th ganmol ddydd na nos ?
 A phwy all beidio â chofio
 Dy farwol Ddwyfol loes ?
 A phwy all beidio â chanu
 Am iachawdwriaeth rad,
 A gafodd deimlo gronyn
 O rinwedd pur dy Waed ?

PANTYCELYN.

10

Molwch Arglwydd nef y nefoedd,
 Holl genhedloedd daear las ;
 Holl dylwythau'r byd a'i bobloedd,
 Cenwch glod ei ryfedd ras ;
 Aleliwia !
 Molwch, molwch Enw'r Iôn.

Mawr yw serch ei gariad atom,
 Mawr ei ryfedd ras di-lyth ;
 Ei gyfamod a'i wirionedd
 Sydd heb ball yn para byth ;
 Aleliwia !
 Molwch, molwch Enw'r Iôn.

NICANDER.

11

O Arglwydd Dduw'r cynhaeaf mawr,
 Danfon i lawr dy fendith
 Ar had y gair i beri i ni
 Aeddfedu'n ffrwythau dilyth.

Fel pan ddêl Duw i'n hól o'r byd
 Y'n ceir fel yd fo'n aeddfed,
 Yn wenith glân i sguor Duw,
 Cans hynny yw ein dyled.

Rhowch glod i'r nef, bob duwiol sant,
Yn wŷr a phlant a thadau,
Am ffrwyth o'r llwch i'n cadw'n fyw,
A Gair Duw i'n heneidiau.
GRUFFYDD JONES, Llanddowror.

12

Arglwydd Iesu, arwain f'enaid
At y Graig sydd uwch na mi—
Craig safadwy mewn tymhestloedd,
Craig a ddeil yng ngrym y lli ;
Llechu wnaif yng Nghraig yr Oesoedd,
Deued dilyw, deued tân ;
A phan chwalo'r greadigaeth,
Craig yr oesoedd fydd fy nghân.

Pan fo creigiau'r byd yn rhwygo
Yn rhyferthwy'r farn a ddaw,
Stormydd creulon yno'n curo,
Cedyrn fyrdd o'm cylch mewn braw—
Craig yr Oesoedd ddeil pryd hynny,
Yn y dyfroedd, yn y tân ;
Draw, ar gefnfor tragwyddoldeb,
Craig yr Oesoedd fydd fy nghân.

MORSWYN.

13

Mae Duw yn llond pob lle,
Presennol ym mhob man ;
Y nesaf yw Efe
O bawb at enaid gwan ;
Wrth law o hyd i wrando cri—
"Nesáu at Dduw sy dda i mi."

Yr Arglwydd sydd yr un,
Er maint derfysga'r byd ;
Er anwadalwch dyn,
Yr un yw Ef o hyd ;
Y graig ni syfl ym merw'r lli—
"Nesáu at Dduw sy dda i mi."

Yr hollgyfoethog Dduw,
Ei olud ni leihâ ;
Diwalla bob peth byw
O hyd â'i 'wyllys da ;
Un dafn o'i fôr sy'n fôr i ni—
"Nesáu at Dduw sy dda i mi."
DAVID JONES, Treborth.

14

Pob peth, ymhell ac agos,
Sy'n dangos Duw i'r byd ;
Ei enw sydd yn aros
Ar waith ei law i gyd ;
Efe a wnaeth y seren
Yn ddisglair yn y nen ;
Efe a wnaeth y ddeilen
Yn wyrddlas ar y pren.
Ar ei drugareddau
Yr ydym oll yn byw ;
Gan hynny dewch, a llawenhewch,
Cans da yw Duw.

Mae'r nefoedd a'i chymylau
O dan ei gadarn law ;
Mae'n rhoddi'r heulwen olau,
Mae'n rhoddi gwllith a glaw ;
Mae gwynoedd cer y gaeaf
Yn gwneud Ei archiad Ef ;
Ac ni ddaw un cynhaeaf
Ond trwy Ragluniaeth nef.
Ar ei drugareddau, etc.

Mae'n newid ei fendithion
I gwrdd ag angen dyn ;
Mae'n ddoeth ym mhob dibenion—
Erioed ni fethodd un ;
Ein bara sydd bob bore
Yn dod o'i ddwyllaw Ef ;
A chynnal ein heneidiau
Wna byth â bara'r nef.
Ar ei drugareddau, etc.

ELFED.

15

O cenwch fawl i'r Arglwydd,
 Y ddaear fawr i gyd !
 Ac am Ei iachawdwriaeth
 Moliennwch Ef o hyd ;
 Mynegwch Ei ogoniant
 Tra dyrchafedig yw ;
 Mae'n ben goruwch y Duwiau,
 Mae'n Arglwydd dynol-ryw.

Rhowch iddo aberth moliant,
 Ymgrymwch ger Ei fron ;
 Yn brydferth mewn sancteiddrwydd
 Moliennwch Ef yn llon ;
 Ac ofned pob creadur
 Yr Hwn sy'n dal y byd ;
 Ymlawenhaed y nefoedd
 A'r ddaear ynddo 'nghyd.

ROBERT JONES, Llanllyfni.

16

Moliannwn Di, O Arglwydd,
 Wrth feddwl am Dy waith
 Yn llunio bydoedd mawrion
 Y greadigaeth faith ;
 Wrth feddwl am Dy allu
 Yn cynnal yn eu lle
 Drigfannau'r ddaear isod
 A phreswylfeydd y ne'.

Moliannwn Di, O Arglwydd,
 Wrth feddwl am Dy ffydd
 Yn llywodraethu'n gyson
 Dros genedlaethau fyrdd ;
 Wrth feddwl am ddoethineb
 Dy holl arfaethau cudd,
 A'u nôd i ddwyn cyfiawnder
 O hyd i olau'r dydd.

10

Moliannwn Di, O Arglwydd,
 Wrth feddwl am Dy ras
 Yn trefnu ffordd i'n gwared
 O rywmau pechod cas ;
 Wrth feddwl am y gwynfyd
 Sydd yna ger Dy fron
 I bawb o'r gwaredigion,
 Nôl gado'r fuchedd hon.

DEVI MÔN.

17

O nefol addfwyn Oen
 Sy'n llawer gwell na'r byd,
 A lluoedd maith y nef
 Yn rhedeg arno'u bryd ;
 Dy ddawn a'th ras a'th gariad drud
 Sy'n llanw'r nef, yn llanw'r byd.

Noddfa pechadur trist,
 Dan bob drylliedig friw
 A phwys euogrwydd llym
 Yn unig yw fy Nuw ;
 'D oes enw i'w gael o dan y nef
 Yn unig ond 'Ei enw Ef.

Ymgrymed pawb i lawr
 I enw'r addfwyn Oen ;
 Yr enw mwyaf mawr
 Eriodd a glywyd sôn ;
 Y clod, y mawl, y parch a'r bri
 Fo byth i enw'n Harglwydd ni.

PANTYCELYN.

18

'Rwy'n gweld o bell y dydd yn dod,
 Bydd pob cyfandir is y rhod
 Yn eiddo Iesu mawr ;
 A holl ynysocdd maith y môr
 Yn cyd-ddyrchafu mawr yr Iôr
 Dros wyneb daear lawr.

11

Mae teg oleuni blaen y wawr
O wlad i wlad yn dweyd yn awr
Fod bore ddydd gerllaw ;
Mae pen y bryniau'n llawenhau
Wrth weld yr haul yn agosau
A'r nos yn cilio draw.

WATGYN WYN.

19

Disgwyl 'r wyf ar hyd yr hirnos
Disgwyl am y bore-ddydd ;
Disgwyl clywed pyrth yn agor
A chadwynau'n mynd yn rhydd ;
Disgwyl golau
Pur yn nhwllwch tewa'r nos.

Daw, fe ddaw y wawr wen olau,
Y bo'r cwmwl du yn ffoi,
Tarth a niwl yn cyd-ddiflannu
Ag oedd wedi cyd-grynhoi ;
Dyma'r oriau
Wy'n eu gweled draw trwy ffydd.

PANTYCELYN.

20

Tragwyddol Hollalluog Iôr,
Creawdwr nef a llawr ;
O gwrando ar ein gweddi daer
Ar ran ein byd yn awr.

O'r golud anchwiliadwy sydd
Yn nhrysofeydd dy ras,
Diwalla reidiau teulu dyn
Dros wyneb daear las.

Yn erbyn pob gormeswr cryf,
O cymer blaid y gwan ;
Darostwng ben y balch i lawr,
A chod y tlawd i'r lan.

12

Bendithia holl dylwythau dyn
Â rhyddid pur a heddd ;
A gad i bawb gael byw heb ofn,
Dan nawdd dy ddwyfol wedd.

Ymostwng atom yn dy ras,
O gwrando ar ein cri ;
Ac, mewn trugaredd, Arglwydd Iôr,
Yn dirion ateb ni.

R. J. DERFEL.

21

Dduw Iôr ein tadau, nefol Dad,
O achub a sancteiddia'n gwlad
Cysegra'n dyheadau ni
I geisio dy ogoniant Di.

Ein tŵr a'n tarian ar ein taith,
A'n Twysog fuost oesoedd maith ;
Rhoist yn ein calon ddwyfol dân,
Ac yn ein genau nefol gân.

O atal rwysg ein gwamal fryd,
A gwared ni rhag twyll y byd ;
Â'th ras ein calon cadarnha,
A dyro brawf o'th 'wyllys da.

O Ysbryd Glân, na foed i ni
Oleuni ond d'oleuni Di ;
Ac arwain bobloedd yn gytûn
I ogoneddu Mab y Dyn.

J. T. JOB.

22

O Dduw, ein Craig a'n Noddfa,
Rho nawdd i'r gwan a'r tlawd,
Er mwyn Dy annwyl Iesu
A anwyd inni'n Frawd ;
Darostwng bob gormeswr
Sy'n mathru hawliau dyn,
Ac achub y trueiniaid
A grewyd ar dy lun.

13

Creawdwr cyrrau'r ddaear,
Tad holl genhedloedd byd,
Cymoda Di â'th gariad
Deyrnascedd dyn ynghyd ;
Gwasgara'r rhai rhyfelgar
Sy'n hoffi trin y cledd,
A boed i fwyn frawdgarwch
Gyfannu'r byd mewn hedd.

O Dduw, fy Ngheidwad innau,
Rho D'Ysbryd imi'n awr,
Yn Ysbryd o wasanaeth
Yng ngrym Dy gariad mawr ;
Ti, feddyg clwyfau dynion,
Rho imi ddwyn y groes,
A llwyr gysegru 'mywyd
I leddfau dynol loes.

D. MIALL EDWARDS.

23

Rho im yr hedd, na wŷr y byd amdano,
Y nefol hedd a ddaeth trwy ddwyfol loes ;
Pan fyddo'r don ar f'enaïd gwan yn curo,
Mae'n dawel gyda'r Iesu wrth y groes.

O dyro'r hedd, na all y stormydd garwaf
Ei flino byth, na chwerwi ei fwynhad ;
Pan fyddo'r enaid, ar y noson dduaf,
Yn gwneud ei nyth ym mynwes Duw ein Tad .

Rho brofi'r hedd a wna i'n weithio'n dawel
Yng ngwaith y nef, dan siomedigaeth flin ;
Heb ofni dim, ond beunydd yn ddiogel
Yn ymyl Duw, er garwed fyddo'r hin.

O am yr hedd sy'n llifo megis afon
Trwy Ddinas Duw, dan gangau'r bywiol bren ;
Yr hedd sy'n llenwi bywyd yr angylion ;
Yr hedd fydd inni'n nefoedd byth. Amen.
ELPED.

24

O gwawria ddydd ein Duw,
Oleuni pur y nef ;
Er mwyn dy weld 'r wy'n byw
Gan godi'n awr fy llef ;
Oen addfwyn Duw, Dy gariad Di
Ddisgleirio ar fy enaid i.

O gwawria ddydd ein Duw ;
Y nos a bery'n hir ;
Ochneidiau'n calon clyw,
Oherwydd drygau'r tir ;
O Seren Ddydd, nesâ yn awr,
O Haul Cyfiawnder, rho dy wawr.

O gwawria ddydd ein Duw ;
Gan drais y blina'r byd,
A chalon dyn sy'n friw
Yn swm y brwydro i gyd ;
O torred arnom ddydd o hedd,
Distawed twrf y gad a'r cledd.

O gwawria ddydd ein Duw,
Fel dydd y nef ei hun ;
Ffydd, gobaith, cariad gwiw
Fo'n puro bywyd dyn ;
Ond wele'r wawr yn torri draw ;
Mae euraïd fore'r dydd gerllaw.

cyf. W. OWEN EVANS.

25

Gwél uwchlaw cymylau amser,
O, fy enaid, gwél y tir,
Lle mae'r awel fyth yn dyner,
Lle mae'r wybren fyth yn glir ;
Hapus dyrfa
Sydd yn nofio yn ei hedd.

Nid oes yno neb yn wlo,
Nid oes yno neb yn brudd,
Troir yn fêl y wermod yno,
Yno rhoir y caeth yn rhydd ;
Hapus dyrfa
Sydd â'u trigfa yno mwy.

Mae fy nghalon brudd yn llamu
O orfoledd dan fy mron,
Yn y gobaith am feddiannu
'R etifeddiaeth ddwyfol hon ;
Hapus dyrfa
Sydd â'u hwyneb tua'r wlad.

26

Bererinion yn yr anial,
Ac ymhell o dir eich gwlad,
Yn hiraethu am gael gweled
Drysau euraid Tŷ eich Tad ;
Er yng nghanol gorthrymderau
Cewch orffwyso maes o law,
Pan gyrhaeddoch ben yr yrfa
Yn y Wynfa'r ochor draw.

Bererinion yn yr anial,
Ewch ymlaen o nerth i nerth,
Er wynebu blin ystormydd
Ac er dringo creigiau serth ;
Wedi maeddu eich gelynion
Cewch y goron ar eich pen,
A mwynhau'r digrifwch bythol
Sydd gerbron yr orsedd wen.

Bererinion yn yr anial,
Er mor ddyrys yw y daith,
Rhodio'r ydych hyd y llwybrau
Droediwyd gan fyrddiynau maith ;
Clywch yr anthem orfoleddus
Yn deffroi y nefoedd fry,—
Dywed iddynt oll orchfygu
Trwy fod llaw eu Duw o'u tu.

DEWI MÔN.

27

Cawn esgyn o'r dyrys anialwch
I'r nefol baradwys i fyw ;
Ein henaid lluddedig gaiff orffwys
Yn dawel ar fynwes ein Duw ;
Dihangfa dragwyddol geir yno
Ar bechod, cystuddiau, a phoen ;
A gwledda i oesoedd diderfyn
Ar gariad anhraethol yr Oen.

O fryniau Caersalem ceir gweled
Holl daith yr anialwch i gyd ;
Pryd hyn y daw troion yr yrfa
Yn felys i lanw ein bryd ;
Cawn edrych ar stormydd ac ofnau,
Ac angau dychrynlyd a'r bedd,
A ninnau'n ddihangol o'u cyrraedd
Yn nofio mewn cariad a hedd.

DAVID CHARLES.

28

Mae Eglwys Dduw trwy'r ddae'r a'r nef yn un,
Y meirw a'r byw â'u cytsain yn gyfûn ;
"Teilwng yw'r Oen !" medd seintiau yn y nef ;
"Teilwng yw'r Oen !" yw'n llafar ni a'n llef.

Darfydded sôn am bob ymryson mwy—
Partïol farn a rhagfarn, lawr â hwy !
Doed ysbryd hedd, tangnefedd yn eu lle,
A chariad pur o'r cariad sy'n y ne'.

- (1) JOHN THOMAS, Rhaeadr.
- (2) EDWARD JONES, Maes-y-plwm.

29

Iesu, llawnder mawr y nefoedd,
 Gwrando lef un eiddil gwan,
 Sydd yn gorwedd wrth Dy orsedd
 Ac yn codi'i lef i'r lan ;
 Mae 'ngelynyon heb rifedi
 Yn fy nghuro o bob tu,
 Ac nid oes a all fy achub
 Is y nefoedd ond tydi.

Mae dy lais yn rhoi distawrwydd
 Ar holl ddwndwr gwag y byd,
 Yn gostegu pob rhyw derfysg
 Fago nwydau croes ynghyd ;
 Y mae'r gwynt yn troi i'r deau,
 Ac mae'r hin yn dawel iawn
 Pan fo Duw'n cyhoeddi heddwch,
 Er mor arw fu'r prynhawn.

PANTYCELYN.

30

Gwyn a gwridog yw fy Arglwydd,
 Gwyn a gwridog yw ei wedd ;
 Brenin y brenhinoedd ydyw
 Yma a thu draw i'r bedd ;
 Mae dy degwch
 Wedi f'ennill ar dy ôl.

Can' ffarwel i bopeth arall
 'R wyt ti'n ddigon mawr dy Hun ;
 Derfydd nefoedd, derfydd daear,
 Derfydd tegwch wyneb dyn ;
 Hwn a'th gaffo,
 Caiff y cwbl oll yn un.

Mae dy wedd yn drech na byddin
 O elynion mawr eu grym ;
 Nid oes yn y nef a'r ddaear
 Saif o flaen dy wyneb ddim ;
 Gair o'th enau
 A wna'r dywyll nos yn ddydd.

PANTYCELYN.

31

Erglyw, O Dduw, fy llefain i,
 Ac ar fy ngweddi gwrando,
 Rhof lef o eitha'r ddaear gron,
 A'm calon yn llesmeirio.

Dwg fi i dollgraig uwch na mi,
 Ac iddi bydd i'm derbyn ;
 Cans craig o obaith, tŵr di-fost,
 Im fuost rhag y gelyn.

O fewn dy babel y bydd byth
 Fy nhrigfan dilyth dedwydd ;
 A'm holl ymddiried a fyn fod
 Yng nghysgod dy adenydd.

EDMWND PRYS.

32

Mae Eglwys Dduw fel dinas wych,
 Yn deg i edrych arni ;
 Ei sail sydd berl odidog werth,
 A'i mur o brydferth feini.

Llawenydd yr holl ddaear hon
 Yw mynydd Seion sanctaidd ;
 Preswylfa annwyl Brenin nef
 Yw Salem-efengylaidd.

Gwyn fyd y dinasyddion sydd
 Yn rhodio'n rhydd ar hyd-ddi ;
 Y nefol fraint i minnau rho,
 O Dduw, i drigo ynddi.

BENJAMIN FRANCIS.

33

Helacetha derfynau dy deyrnas,
 A galw dy bobol ynghyd ;
 Datguddia dy haeddiant anfeidrol
 I'th eiddo, Iachawdwr y byd.
 Cwmp anghrist, a rhwyga ei deyrnas,
 O brysied a deued yn awr ;
 Disgynned Ierwsalem newydd
 I lonni trigolion y llawr.

Eheda, efengyl, dros wyneb
 Y ddaear a'r moroedd i gyd,
 A galw dy etholedigion
 O gyrrau eithafoedd y byd.
 O brysia'r cyfarfod heb lygredd,
 Na rhyfel, na chystudd, na phoen,
 Dydd Iwbil yr etholedigion,
 A chyd-etifeddion â'r Oen.

MORGAN RHYS.

34

Arglwydd, gad im dawl orffwys
 Dan gysgodau'r palmwydd clyd,
 Lle yr eistedd pererinion
 Ar eu ffordd i'r nefol fyd ;
 Lle'r adroddant dy ffyddlondeb
 Iddynt yn yr anial cras,
 Nes anghofio'u cyfyngderau
 Wrth foliannu nerth dy ras.

Arglwydd, dal ni nes mynd adref,
 Nid yw'r llwybyr eto'n faith ;
 Gwened heulwen ar ein henaid,
 Wrth nesau at ben y daith ;
 Doed y nefol awel dyner
 I'n cyfarfod yn y glyn,
 Nes in deimlo'n traed yn sengi
 Ar uchelder Seion fryn.

EMRYS.

35

O Iesu mawr, rho d'anian bur
 I eiddil gwan mewn anial dir,
 I'w nerthu drwy'r holl rwystrau sy
 Ar ddyrys daith i'r Ganan fry.

Pob gras sydd yn yr Eglwys fawr,
 Fry yn y nef, neu ar y llawr,
 Caf feddu oll—eu meddu'n un,
 Wrth feddu d'anian Di dy Hun.

Mi lyna'n dawl wrth dy draed,
 Mi ganaf am rinweddau'r gwaed,
 Mi garia'r groes, mi nofia'r don,
 Ond cael dy anian dan fy mron.

DAVID CHARLES.

36

O arwain fi i'th nefol ffyrdd,
 Yng nghanol temtasiynau fyrdd ;
 Yn awr y brofedigaeth ddu,
 Dragwyddol Ysbryd, arwain fi.

Pererin wyf ymhell o'm gwlad,
 A'm golwg ar drigfannau 'Nhad,
 Pererin rhwng gelynyon lu ;
 Dad pererinion, arwain fi.

Trwy ddyfnion donnau angau af
 Dan ganu, os dy gwmni gaf ;
 Nes cyrraedd glan y Ganan gu,
 O Iôr anfeidrol, arwain fi.

ISLWYN.

37

Tyred, Iesu, i'r anialwch,
 At bechadur gwael ei lun,
 Ganwaith ddrysodd mewn rhyw rwydau—
 Rhwydau weithiodd ef ei hun ;
 Llosg fieri sydd o'm cwmpas,
 Dod fi i sefyll ar fy nhraed ;
 Moes dy law, ac arwain drosodd
 F'enaid gwan i dir ei wlad.

Ar dy allu 'r wy'n ymddiried ;
 Mi anturiaf, doed a ddêl,
 Dreiddio trwy'r afonydd dyfnion,
 Mae dy eiriau oll dan sêl ;
 Fyth ni fetha a gredo ynot,
 Ni bu un erioed yn ôl ;
 Mi â 'mlaen, a doed a ddelo,
 Graig a thyle, ar dy ôl.

PANTYCELYN.

38

O anfeidrol rym y cariad,
 Anorchfygol ydyw'r gras ;
 Digyfnawid yw'r addewid,
 A bery byth o hyn i maes ;
 Hon yw f'angor ar y cefnfor,
 Na chyfnawid meddwl Duw ;
 Fe addawodd na chawn farw,
 Yng nghlwyfau'r Oen y cawn i fyw.

Yn y dyfroedd mawr a'r tonnau,
 Nid oes neb a ddeil fy mhen
 Ond fy annwyl briod Iesu,
 A fu farw ar y pren ;
 Cyfaill yw yn afon angau,
 Ddeil fy mhen i uwch y don ;
 Golwg arno wna i mi ganu
 Yn yr afon ddefon hon.

DAVID WILLIAMS, Llandeilo Fach.

39

O gwrando, Arglwydd grasol,
 Ar lef pechadur gwan ;
 Mae ef yn edifeiriol,
 Yn ceisio dod i'r lan ;
 Er cymaint yw ei feiau,
 O Arglwydd, clyw ei gri,
 Er mwyn dy ddiodefiadau
 Ar Groesbren Calfari.

Nid oes o fewn yr hollfyd
 Un meddyg a'm hiachâ,
 Dim un all wella 'nghlefyd,
 Ond ti, y Meddyg da ;
 O Iesu, bydd dosturiol,
 A gwrando ar fy nghri,
 Rho im o ddyfroedd bywiol
 Glân ffynnon Calfari.

GLASYNYS.

40

Pa bryd y cedwi'r bobol ?
 Drugarog Dduw, pa bryd ?
 Nid mawrion, heb y miloedd,
 Nid beilchion, ond y byd !
 Blodau Dy galon yw'r rhai hyn—
 Gânt hwy ddiflannu megis chwyn,
 Heb weled gwawr o obaith gwyn ?—
 Duw gadwo'r bobol !

Gaiiff trosedd fagu trosedd,
 A'r cryf gryfhau o hyd ?
 A fynni Di i lafur
 Fyth gynnal gormes byd ?
 Na ! medd Dy fryniau ; na ! Dy nef ;
 Fe gwyd yr haul, a chydag ef
 Dynoliaeth gwyd â llawen lef—
 Duw gadwo'r bobol !

Pa bryd y cedwi'r bobol?
Drugarog Dduw, pa bryd?
Y bobol, Dad, y bobol!
Nid beilchion, ond y byd!
Duw gadwo'r bobl—plant i Ti
Ynt hwy, fel Dy angylaidd lu;
Rhag llygredd, trais, anobaith du,
Duw gadwo'r bobol!

cyf. KERI EVANS.

41

Trwy droeau'r byd, a'i wên, a'i wg,
Bid da, bid drwg y tybier,
Llaw Duw sy'n troi'r cwmpasgylch glân
Yn wiwlan, er na weler.

Fe weryd wirion yn y frawd
Rhag enllib tafawd atgas;
Fe rydd orffwysfa f alltud blin
Mewn anghynefin ddinas.

Ei gysur ef sydd yn bywhau
Y pennau gogwyddedig;
Fe sych â'i law y llif sy'n gwau
Hyd ruddiau'r weddw unig.

Pa raid ychwaneg? Gwnelwyf hyn;
Gosteged gwyn a balchder;
Ac arnat, Dduw, fy Ngheidwad glwys,
Bid fy holl bwys a'm hyder.

GORONWY OWEN.

42

'D oes destun, gwiw i'm cân,
Ond cariad f'Arglwydd glân,
A'i farwol glwy';
Griddfannau Calfari
Ac Angau Iesu cu
Yw 'nghân a'm bywyd i—
Hosanna mwy!

Caniadau'r nefol gôr
Sydd oll i Grist fy Iôr
A'i farwol glwy';
Y brwydrau wedi troi,
Gelynion wedi ffoi,
Sy'n gwneud i'r dyrfa roi
Hosanna mwy!

ALUN.

43

At bwy yr awn? O Fab y Dyn,
At bwy ond atat Ti Dy hun?
I ddwys gwestiynau dynol ryw
Tydi, Tydi, yw ateb Duw.

I bawb, pwy ond Tydi sy'n Frawd?
Tydi yw Cyfaill gorau'r tlawd;
'Cheir neb fel Ti i esmwythau
Y rhai sy'n ysig dan yr iau.

Blinderau'r unig, ofnau'r gwan,
Caledi dynion ym mhob man,
Sy'n agos at Dy galon Di,
O Ddwyfol Frawd fu ar Galfari.

Gwna ninnau'n fwy fel Ti Dy hun,
I'th ddangos yn Waredwr dyn,
Nes dwedo eraill gyda ni—
"At bwy yr awn ond atat Ti?"

Tyn atat bawb drwy'r llydan fyd,
Gwna oll yn un drwy'th gariad drud ;
Dragwyddol Ffrind ein teulu ni,
At bwy yr awn ond atat Ti ?

ELFED.

44

O Arglwydd Dduw rhagluniaeth,
Ac iachawdwriaeth dyn,
Tydi sy'n llywodraethu
Y byd a'r nef dy hun ;
Yn wyneb pob caledi
Y sydd, neu eto ddaw,
Dod gadarn gymorth imi
I lechu yn dy law.

Er cryfed ydyw'r gwyntoedd
A chedyrn donnau'r môr,
Doethineb ydyw'r Llywydd,
A'i Enw'n gadarn Iôr ;
Er gwaethaf dilyw pechod,
A llygredd o bob rhyw,
Dihangol byth heb soddi,
Am fod yr Arch yn Dduw.

Priodolir i ANN GRIFFITHS.

45

Fry yn dy nefoedd clyw ein cri,
Pob gras a dawn sydd ynot Ti ;
Nac oeda'n hwy dy Deyrnas fawr,
O Dduw, ein Iôr, pâr lwydd yn awr.

Nid aeth o'n cof dy wyrthiau gynt,
Y sanctaidd dân a'r bywiol wynt ;
Gwyn fyd na ddeuent eto i lawr—
O Dduw, ein Iôr, pâr lwydd yn awr.

Gwêl a oes ynom bechod cudd,
A maddau ein hychydig ffydd ;
Mwy yw dy ras na'n beiau mawr ;
O Dduw, ein Iôr, pâr lwydd yn awr.

Gad inni weld dy wedd a byw,
Gad wybod mai Tydi sy Dduw ;
Gwisg wisgoedd dy ogoniant mawr,
O Dduw, ein Iôr, pâr lwydd yn awr.

EIFION WYN.

46

Mae'r Gwaed a redodd ar y groes
O oes i oes i'w gofio ;
Rhy fyr yw tragwyddoldeb llawn
I ddweud yn iawn amdano.

Prif destun holl ganiadau'r nef
Yw "Iddo Ef" a'i haeddiant ;
A dyna sain telynu glân
Ar uchaf gân gogoniant.

Mae hynod rinwedd Gwaed yr Oen,
A'i boen wrth achub enaid,
Yn seinio'n uwch ar dannau'r nef
Na hyfryd lef seraffiaid.

'Mhen oesoedd rif y tywod mân
Ni bydd y gân ond dechrau ;
Rhyw newydd wyrth o'i angau drud
A ddaw o hyd i'r golau.

R. AB GWILYM DDU.

47

Ar fôr tymhestlog teithio'r wyf
I fyd sydd well i fyw,
Gan wenu ar ei stormydd oll—
Fy Nhad sydd wrth y llyw.

Drwy leoedd geirwon, enbyd iawn,
A rhwystrau o bob rhyw,
Y'm dygwyd eisoes ar fy nhaith—
Fy Nhad sydd wrth y llyw.

Er cael fy nhafu o don i don,
Nes ofni bron cael byw,
Dihangol ydwyf hyd yn hyn—
Fy Nhad sydd wrth y llyw.

Ac os oes stormydd mwy yn ôl
Ynghadw gan fy Nuw,
Wynebaf arnynt oll yn hy—
Fy Nhad sydd wrth y llyw.

28

A phan fo'u hymchwedd yn cryfhau,
Fy angor, sicir yw ;
Dof yn ddiogel trwyddynt oll—
Fy Nhad sydd wrth y llyw.

I mewn i'r porthladd tawel clyd,
O sŵn y storm a'i chlyw,
Y caf fynediad llon ryw ddydd—
Fy Nhad sydd wrth y llyw.

IEUAN GLAN GEIRIONYDD.

48

Gobaith mawr y mae'r addewid
Wedi'i osod draw o'm blaen ;
Hyn a gynnal f'enaid egwan
Rhag im lwfwrhau yn lân.

Gobaith, wedi rhyfel caled,
Y caf fuddugoliaeth lawn ;
Gobaith bore heb gymylau
Ar ôl noswaith dywyll iawn.

Gobaith, ar ôl maith gystuddiau,
Y caf fod heb boen na chlwy' ;
Gobaith, yn y ffwrnais danlyd,
Y'm ceir heb fy sorod mwy.

Gobaith, yn yr anial garw,
Y cyrhaeddaf Ganan wlad ;
Wedi crwydro 'mhell o gartref,
Gobaith dod i dŷ fy Nhad.

JOHN JONES, Talysarn.

29

49

Efengyl tangnefedd, O rhed dros y byd ;
A deled y bobloedd i'th lewyrch i gyd ;
Na foed neb heb wybod am gariad y Groes ;
A brodyr i'w gilydd fo dynion pob oes.

Sancteiddier y ddaear gan ysbryd y ne' ;
Boed Iesu yn Frenin, a neb ond Efe ;
Y tywysogaethau mewn heddwth ei draed,
A phawb yn ddiogel dan arwydd ei Waed.

Efengyl tangnefedd, dos rhagot yn awr ;
A doed dy gyfiawnder o'r nefoedd i lawr ;
Fel na byddo mwyach na dial na phoen,
Na chariad at ryfel, ond rhyfel yr Oen.

EIFION WYN.

50

Mae enw Crist i bawb o'r saint
Fel ennaint tywalltedig,
Ac yn adfywiol iawn ei rin
I'r enaid blin lluddedig.

Pan fyddo f'enaid yn y llwch,
A thwllwch fel y fagddu,
Mae dawn a nerth i'm dwyn yn ôl
Yn enw grasol Iesu.

Gobeithiwch ynddo, bawb o'r saint,
Er cymaint yw eich gofid,
Gan wybod bod eich Priod gwiw
Yn ffyddlon i'w addewid.

IAGO TRICHRUG.

51

Cofia'r byd, O! Feddyg da,
A'i flinderau ;
Tyrd yn glau, a llwyr iachâ
Ei ddoluriau :
Cod y bobloedd ar eu traed
I'th wasnaethu ;
Ti a'u prynaist trwy dy waed,
Dirion Iesu !

Y mae'r balm o ryfedd rin
Yn Gilead ;
Ac mae yno beraidd win
Dwyfol gariad ;
Yno mae'r Physygwr mawr,—
Deuwch ato,
A chydgenwch, deulu'r llawr,—
Diolch iddo !

J. T. JOB.

52

Nef yw i'm henaidd ym mhob man
Pan brofwyf Iesu mawr yn rhan ;
Ei weled Er â golwg ffydd
Dry'r dywyll nos yn olau ddydd.

Mwynhad o'i ras maddeuol mawr,
Blaen-brawf o'r nef yw yma'n awr ;
A darllen f'enw ar ei fron
Sy'n nefoedd ar y ddaear hon.

Ac er na welaf ond o ran,
Ac nad yw profiad ffydd ond gwan,
Y defnyn bach yn fôr a fydd,
A'r wawr a ddaw yn berffaith ddydd.

R. AP GWILYM DDU.

O! agor fy llygaid i weled
Dirgelwch dy arfaeth a' th' ar;
Mae'n well i mi gyfraith dy enau
Na miloedd o arian ac aur;
Y ddaear â'n dân a'i thryserau.
Ond geiriau fy Nuw fy'd yr un;
Y bywyd tragwyddol yw 'nabod
Fy Mhrynwr yn Dduw ac yn ddyn.

Rhyfeddod a bery'n ddi-ddarfod
Yw'r ffordd a gymerodd Efe
I gadw pechadur colledig,
Trwy farw ei Hun yn ei le;
Fe safodd fy Mrenin ei Hunan,
Gorchfygodd hiliogaeth y ddraig;
Ein Llywydd galluog ni ydyw;
O! caned preswylwyr y graig.

MORGAN RHYS.

Nefol Dad, mae eto'n nosi,
Gwranddo lef ein hwyrol weddi—
Nid yw'r nos yn nos i Ti;
Rhag ein blino gan ein hofnau,
Rhag pob niwed i'n heneidiau,
Yn dy heddi, O cadw ni.

Cyn i'r caddug gau amdanom,
Taena d'adain dyner drosom—
Gyda Thi tawelwch sydd;
Yn dy gariad mae ymgeledd,
Yn dy fynwes mae tangnefedd,
Wedi holl flinderau'r dydd.

ELFED.

READING.—Cymdeithas Cymry Reading. Ysgrifennydd:
Mrs. Jefferies, 5 Tilehurst Road, Reading.

CAER.—Cymdeithas Cymry Caer. Mr. Henry D. Williams,
8 The Groves, Chester. Aelwyd yr Urdd, Bridge Street
Row.

NOTTINGHAM.—Mrs. Gwen Prior, 57 Charnock Avenue,
Wollaton Park, Nottingham.

HUDDERSFIELD.—Cymdeithas Gymreig Huddersfield.
Llywydd: Mr. Math. R. Hughes, Ciyngog, Fenay Bridge,
Huddersfield.

DONCASTER.—Cyfarfod yn Hope Chapel. Ymofynner a
Miss L. Stephen, 19 North Eastern Road, Thorne, Don-
caster.

BLACKPOOL.—Cymdeithas Gymreig Pwlldu. Ysgrifennydd:
Miss Gertrude Jones, 45 Cumberland Avenue, Blackpool.
Cyfarfod yn "Vancouver," South Parade.

NEWCASTLE-ON-TYNE.—Cymdeithas y Cymmrodorion.
Ysgrifennydd: Mr. Emlyn Bevan, 43 Kingsway, Fenham,
Newcastle-on-Tyne, 4.

CERNYW.—Mr. a Mrs. Evan Hughes, Trevillet, Tintagel,
Cornwall.

BIRMINGHAM.—Aelwyd yr Urdd, Siop Mr. Delwyn Phillips,
256 Broad Street, Birmingham.

WOLVERHAMPTON.—Eglwys Gymraeg Bath Street. Ysg:
Mr. R. Hughes, 25 Wynn Road, Wolverhampton.

COVENTRY.—Eglwys Gymraeg yn y Liberal Club. Ysg:
Mr. Eurfyl Williams, 106 Maudslay Road, Coventry.

LEEDS.—Capel a Chymdeithas Gymraeg. Fellowship House,
Park Street (gyferbyn a'r "Fire Station"), Leeds 1.
Gweinidog: y Parch. Emlyn Williams, 37 Chestnut Ave.,
Leeds, 6.

RHYL.—Croeso a lluniaeth yng Nghapel Ciwyd Street bob
nos Sef ar ol y Gwasanaeth.

COFION CYMRU

AT EI PHLANT AR WASGAR

Golygyddion :

Cynan, Penmaen, Menai Bridge ; W. A. Bebb, Llwydiarth, Bangor ; y Parch. J. H. Williams, Rheithordy, Llanberis.

Pwyllgor :

J. Morgan Jones, D. R. Hughes, R. T. Jenkins, Picton Davies, A. Talfan Davies, Tom Parry, Ifan Pugh a'r Golygyddion.

CYFRES Y COFION

1. Llyfr Anrheg. Detholion o Farddoniaeth, etc.
2. Ail Lyfr Anrheg. Detholion o Ryddiaith.
3. Emynau'n Gwlad. Detholion o Emynau.

Cyhoeddwr :

D. R. Hughes, Y Bwthyn, Old Colwyn, Denbighshire.

Gall unrhyw ferch neu fachgen sydd yn y lluoedd arfog, neu wedi gorfod symud oddi cartref oherwydd amgylchiadau rhyfel, gael copïau o'r Cyhoeddiadau uchod yn rhad ac am ddim trwy anfon cais at y Cyhoeddwr.